
# LLWYBR RNLI
# PENRHYN TYDDEWI




© Hawlfraint y Goron a hawliau cronfa ddata 2024 Arolwg Ordnans AC0000810561

## O fewn Dinas Tyddewi

**1. Sgwâr y Groes ///diddanwch.llofft.cysgodaf.**
Anfonodd yr RNLI ei fad achub cyntaf i Dyddewi yn 1869. Cadwyd yr Augusta yn Sgwâr y Groes ar y dechrau. I'w lansio, byddai'n rhaid ei dynnu tua milltir, i Borthclais.

**2. Gerddi Coffa ///holais.hufennog.tlysau.**
Cawsant eu creu ar ôl trychineb y Gem ym 1910 pan gollwyd tri aelod o griw'r bad achub wrth iddynt achub criw y Democrat yn Swnt Dewi. Mae plac coffa i Ieuan Bateman, a gollwyd yn ystod yr ymdrech i achub y Notre Dame de Fatima yn 1956, hefyd i'w weld yma.

**3. Baromedr yr RNLI ///pasiant.helpa.culfor.**
Yn y 1860au, rhoddodd yr RNLI faromedrau Fitzroy i drefi arfordirol. Roedden nhw'n helpu pysgotwyr i ragweld tywydd gwael a chodi arian ar gyfer yr RNLI. Mae cyn-lywiwr bad achub Tyddewi, Malcolm Gray, yn cofnodi'r darlleniadau hyd heddiw. Gweler https://coflein.gov.uk/cy/safle/800663/ a model 3D https://skfb.ly/oWuZQ


**4. The Farmers Arms ///pabïau.melysfwyd.platinwm.**
Yn draddodiadol, dyma lle byddai criw'r bad achub yn dod at ei gilydd i gymdeithasu.


**5. Eglwys Gadeiriol Tyddewi ///achosaf.dargludo.adnoddau.**
Y tu mewn mae plac er cof am organydd yr eglwys gadeiriol, Dr Joseph Soar, a oedd yn Ysgrifennydd Anrhydeddus yr RNLI rhwng 1926 a 1963. Ym mis Chwefror 1943, cymerodd Dr Soar ran yn y gwaith o achub dyn a oedd wedi'i ddal ar glogwyni mewn tywyllwch dudew. Dringodd Gwilym Davies, aelod o griw'r bad achub, y clogwyni wrth i Dr Soar gydio'n dynn yn y graig wlyb islaw, gan ddefnyddio lamp signalau'r bad achub i daflu goleuni ar y sefyllfa. Derbyniodd Gwilym Davies a Dr Joseph Soar fedalau Efydd yr RNLI a chafodd Dai Lewis Ddiolchiadau'r RNLI ar Felwm am eu rhannau yn yr achub.

**6. Felin Isaf ///estron.ategodd.trigolion.**
Cafodd Melin yr Esgob ei hadfer gan Dai Lewis, llywiwr y bad achub, melinydd, pysgotwr a cherddor. Dyfarnwyd medal Efydd yr RNLI iddo ym 1956 am achub criw o wyth o'r llong dreillio Ffrengig Notre Dame de Fatima. Yn drist iawn, cafodd Ieuan Bateman, un o griw'r bad achub, ei sgubo oddi ar fwrdd y cwch a'i golli ar ôl i don orlifo'r bad achub yn llwyr.

ORIEL Y PARC
Mewn Partneriaeth a
In Partnership with
AMGUEDDFA CYMRU
Lifeboats RNLI 200
Parc Cenedlaethol Arfordir Penfro
Pembrokeshire Coast National Park

# LLWYBR RNLI PENRHYN TYDDEWI





© Hawlfraint y Goron a hawliau cronfa ddata 2024 Arolwg Ordnans AC0000810561

## **O amgylch y penrhyn** (Solfach i Borthstinan tua 10.8 milltir / 17.4km)

**7. Gorsaf bad achub Solfach SM 80150 24101, ///glowyr.holir.arddull.**
Caeodd gorsaf bad achub Solfach (1869-1887) ar Gei'r Drindod oherwydd ei bod yn rhy anodd ei lansio pan oedd y llanw'n isel. Gweler https://coflein.gov.uk/cy/site/544165/ a https://skfb.ly/oWLyZ

**8. Llong ddrylliedig y Cashier SM 79888 23648, ///pytio.nodedig.llech.**
Ym 1900, achubodd bad achub Little Haven deithwyr a rhai o griw'r Cashier ar ôl i'r llong gael ei dal mewn corwynt ym Mae Sain Ffraid. Cafodd y Cashier ei dryllio y diwrnod canlynol ar Graig St Elvis yng ngheg Harbwr Solfach. Gweler https://coflein.gov.uk/cy/site/273084/

**9. Aber Llong SM 78876 24109, ///asesodd.pysgoty.cwestiynu.**
Cafodd tri tynfad eu dryllio yma yn 1981 ar eu ffordd rhwng Lerpwl a Gwlad Groeg. Achubodd bad achub Tyddewi dri aelod o'r criw oddi ar y tynfad Vernicos Georgis. Gweler: https://coflein.gov.uk/cy/site/273259/ a Model 3D: https://skfb.ly/oUuuM

**10. Porthclais SM 74292 23938, ///cariadus.cyffiniau.nerfus (ochr ddwyreiniol), ///hysbysodd.cadeiriau.degolyn (ochr orllewinol).**
Ym 1910, rhwyfodd Sydney Mortimer a dau o Wylwyr y Glannau allan oddi yma i achub goroeswyr Bad Achub Tyddewi Gem, gan gymryd tair awr i gyrraedd Swnt Dewi. Gweler https://coflein.gov.uk/cy/site/34342/ a https://skfb.ly/oFGH9

**11. Porthlysgi SM 73071 23772, ///awgrymais.lluosaf.dawnus.**
Roedd David Hicks, llywiwr cyntaf Bad Achub Tyddewi yn ffermio ym Mhorthlysgi. Cyn i orsaf y bad achub gael ei hadeiladu ym Mhorthstinan, roedd y bad achub Augusta yn cael ei gadw yma, a'i lusgo ar draws y traeth i'w lansio. Ar ôl i'r Augusta ymddeol, daeth yn gwt ieir ar y fferm. Gweler: https://coflein.gov.uk/cy/site/34344

**12. Penmaenmelyn SM 71521 23591, ///tynfa.suddodd.gwiwerod.**
Arferai'r llecyn hwn fod yn fwynglawdd copr ar un adeg, ac mae ganddo olygfa wych o Pont y Geist, rîff o greigiau lle cafodd y bad achub tynnu a hwylio Gem ei dryllio yn 1910. Roedd Gem wedi mynd i helpu llong fasnachu mewn storm yng nghanol nos. Collwyd tri o griw'r bad achub. Treuliodd y goroeswyr y noson yn cydio'n dynn yn y creigiau. Cawsant eu hachub ar ôl rhoi eu dillad oel ar dân i dynnu sylw. Gweler: https://coflein.gov.uk/cy/site/272612

**13. Porthstinan SM 72414 25228, ///adfywiad.allforio.ysbrydion.**
Adeiladwyd gorsaf gyntaf y bad achub ym Mhorthstinan o garreg o chwarel leol. Bu'n gartref i'r Augusta ac yna'r Gem. Ar ôl i Gem gael ei dryllio, adeiladwyd yr ail orsaf (gyda'r to coch) i gartrefu bad achub â modur. Cafodd y trydydd gorsaf ei chwblhau yn 2016 i gartrefu'r bad achub dosbarth Tamar RNLB Norah Wortley a bad achub dosbarth D. Ger pen y grisiau sy'n arwain i lawr at yr ail gwt bad, mae rhan o awyren o'r Ail Ryfel Byd. Mae'n coffáu rôl criwiau bad achub yn y gwaith o achub aelodau o'r lluoedd arfog. Gweler: https://coflein.gov.uk/cy/site/34348/ a Model 3D: https://skfb.ly/oWCMK

**14. Rhosson SM 72911 25279, ///pwysicach.heddwas.marchnata.**
Mae'r teulu Griffiths o Rhosson wedi gwirfoddoli gyda'r bad achub yn ddi-dor am dros ganrif.

Cadwch at hawliau tramwy cyhoeddus, dilynwch y Cod Cefn Gwlad, cymerwch ofal ar Lwybr yr Arfordir a pharchu eiddo preifat. Diolch i wirfoddolwyr a chriw Bad Achub Tyddewi a Chomisiwn Brenhinol Henebion Cymru.